

Adroddiad Arolygu Ysbyty
Anableddau Dysgu'r GIG (Dirybudd)
03631 - Lleoliad Ysbyty'r GIG,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 22, 23 a 24 Ebrill 2024
Dyddiad cyhoeddi: 8 Awst 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf.....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	13
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	23
4. Y camau nesaf	28
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	29
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	30
Atodiad C - Cynllun gwella	31

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o leoliad ysbyty anabledau dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 22, 23 a 24 Ebrill 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol (a oedd yn cynnwys yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl).

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom siarad â'r cleifion a'u teuluoedd neu eu gofalwyr er mwyn clywed am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur AGIC er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio yn yr ysbyty. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom ryngweithio cyfeillgar a llawn parch gyda'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar, ragweithiol a brwdfrydig. Bu gwelliant ers ein harolygiad blaenorol o ran yr amrywiaeth o wybodaeth sydd bellach ar gael i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am Gweithio i Wella a gwasanaethau megis y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion a'r gwasanaeth eirioli.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain y gallent eu personoli. Gallai'r cleifion wisgo eu dillad eu hunain ac roeddent yn ymddangos yn drwsiadus.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod Therapydd Galwedigaethol wedi'i recriwtio ers ein harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod amrywiaeth o weithgareddau creadigol bob amser ar gael i'r cleifion gymryd rhan ynddynt. Rydym yn argymhell y dylai'r rhaglen bresennol o weithgareddau therapiwtig gael ei hadolygu er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid atgyweirio rhai estyll rhydd ar y decin yn yr ardd am eu bod yn peri risg y bydd cleifion yn cwmpo
- Nid oedd y llinell ffôn yn y swyddfa nyrsio yn gweithio ac, felly, mae angen ei thrwsio er mwyn i'r cleifion ei defnyddio os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd enghreifftiau cadarnhaol lle mae staff wedi gweithio gyda chleifion er mwyn llunio cardiau wedi'u lamineiddio a oedd yn helpu'r staff i fod yn ymwybodol a deall sut i reoli a thawelu'r claf os oedd angen
- Roedd fersiynau hawdd i'w darllen a oedd yn disgrifio gwybodaeth allweddol megis y canllaw i gleifion a hawliau cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u llunio er mwyn eu gwneud yn haws i'w deall i'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith. Roedd aelodau'r staff yn glir ynghylch sut i roi gweithdrefnau diogelu ar waith yng nghyd-destun eu dyletswyddau. Gwelsom fod edrychiad yr ystafell clinig yn yr uned wedi gwella'n

sylweddol ers ein harolygiad blaenorol a'i bod yn llawer taclusach. Roedd meddyginiaeth bellach yn drefnus iawn ac yn cael ei storio'n ddiogel.

Roedd y ddogfennaeth cadw statudol a adolygwyd gennym yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon. Roedd cofnodion y cleifion yn adlewyrchu'r meini prawf a nodir ym Mesur Iechyd Meddwl Cymru 2010 ac roeddent yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau lle roedd y tîm amlddisgyblaethol wedi cael ei gynnwys.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud i amgylchedd allanol yr uned ers ein harolygiad diwethaf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhagor o faterion amgylcheddol yn ystod yr arolygiad ac rydym wedi argymhell bod yn rhaid i'r holl faterion cynnal a chadw a nodwyd gan y staff gael eu hunioni mewn modd amserol a bod gwaith ystadau yn cael ei wneud er mwyn gwella edrychiad allanol yr adeilad a'r ardaloedd cyfagos y tu allan i'r uned.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid gwella'r broses o archwilio a monitro rhestrau gwirio Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty er mwyn sicrhau y caiff unrhyw faterion a nodir eu blaenoriaethu ac y cymerir camau i fynd i'r afael â nhw mewn modd mwy amserol
- Rhaid adolygu capasiti storio yn yr uned a chael gwared ar unrhyw gyfarpar sydd wedi torri neu nad oes ei angen mwyach
- Rhaid datblygu asesiad risg ar gyfer rhoi meddyginiaeth fewngyhyrol i gleifion tra byddant yn cael eu hatal yn gorfforol er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei wneud yn ddiogel
- Rhaid cynnal asesiad risg addas ar gyfer unrhyw gyfnodau o absenoldeb Adran 17 a roddir i gleifion a'i ddogfennu ar ffurflen absenoldeb Adran 17.
- Rhaid gwella cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Rhaid nodi a chofnodi dewis iaith pob claf er mwyn i anghenion ieithyddol perthnasol allu cael eu diwallu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Buom yn sylwi ar weithdy diwrnod hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar hanes un o'r cleifion yn yr uned a gwelsom ei fod yn enghraifft ragorol o waith tîm amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwelliannau wedi'u gwneud ers ein harolygiad blaenorol. Roedd yn ymddangos bod diwylliant ac agwedd dda ymhlith y staff i

weithio tuag at wella ansawdd y gofal a'r driniaeth a roddir i gleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai camau gweithredu a oedd wedi'u nodi fel camau gweithredu a gwblhawyd yng nghynllun gwella'r gwasanaeth, wedi cael eu diweddarau/rhoi ar waith. Gwnaethom argymhell bod yn rhaid i gamau gweithredu o'r cynllun gwella gael eu hymgorffori yn y prosesau busnes ar gyfer y gwasanaeth a'u monitro er mwyn olrhain cynnydd.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng staff llawn cymhelliant y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Ar y cyfan, rhannodd yr aelodau o staff a gwblhaodd holiadur brofiadau cadarnhaol â ni ynglŷn â gweithio yn yr uned.

Gwelsom wybodaeth glir yn cael ei harddangos am y ffordd y gallai cleifion a'u teuluoedd neu eu gofalwyr roi adborth ffurfiol ar eu gofal.

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, nodwyd gennym nad oedd nifer o bolisiau'r bwrdd iechyd yn gyfredol mwyach. Felly, roedd yn siomedig gweld nad oedd rhai o bolisiau'r bwrdd iechyd wedi cael eu diweddarau. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn â phryd y caiff y polisiau a nodir yn yr adroddiad hwn, ac yn ein hadroddiad arolygu blaenorol, eu cymeradwyo.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' gael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am gamau a gymerir mewn perthynas ag unrhyw faterion cyfredol a godir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio priodol mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal yn y cynllun gofal a thriniaeth y gwnaethom edrych arno, ynghyd â chyfranogiad da gan y tîm amlddisgyblaethol, cydgysylltwyr gofal a gwasanaethau partner perthnasol yn y gymuned leol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom dystiolaeth bod anghenion iechyd corfforol y cleifion yn cael eu hasesu a'u rheoli mewn modd amserol a phriodol. Er enghraifft, roedd cynllun rheoli diabetes wedi'i ddatblygu gan staff ar gyfer un claf er mwyn helpu i fonitro lefel siwgr yn ei waed. Roedd y cleifion hefyd yn cael cymorth i wella eu hiechyd drwy fentrau i leihau smygu a gwella symudedd. Gwelsom hefyd weithgaredd yn cael ei gynnal yn ystod yr arolygiad lle y cafodd cleifion eu hannog i wneud smwddis iach.

Roedd gardd amgaëedig ar gael i'r cleifion ei defnyddio. Nodwyd gennym fod rhai estyll rhydd ar y decin a oedd yn peri risg y byddai cleifion yn cwmpo.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr estyll rhydd ar y decin yn cael eu hatgyweirio.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom safonau gofal da yn cael eu dangos gan aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad. Roedd hyn yn cynnwys rhagweithiol cyfeillgar a llawn parch gyda'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd garedig, ragweithiol a brwdfrydig. Roedd hwn yn welliant cadarnhaol ers ein harolygiad blaenorol pan oeddem wedi gweld rhai enghreifftiau lle nad oedd y staff wedi gwrandao ar y cleifion, eu cydnabod na'u parchu.

Gallai'r cleifion wisgo eu dillad eu hunain ac roeddent yn ymddangos yn drwsiadus. Gallai'r cleifion gymdeithasu mewn ardal gymunol rhyw cymysg a oedd yn cael ei monitro gan staff. Roedd gan bob un o'r cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain, gyda chyfleusterau ensuite. Rheolwyd mynediad drwy allwedd, a oedd ar gael i'r cleifion a'r staff at ddibenion diogelwch. Gwnaethom edrych ar un ystafell ac roedd yn gadarnhaol gweld ei bod yn lân, yn daclus ac wedi'i phersonoli i greu ymdeimlad cartrefol. Roedd paneli arsylwi yn nrysau'r ystafelloedd gwely er mwyn i'r staff allu cynnal arsylwadau heb agor y drws gan o bosibl darfu ar y claf. Gwelsom fod paneli arsylwi ar gau pan nad oedd y staff yn arsylwi ar y cleifion, a oedd yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod y bwrdd ‘cipolwg ar ddiogelwch cleifion’ yn cael ei gadw mewn ardal ddigon diogel a'i fod wedi'i orchuddio pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwnaethom argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried recriwtio Therapydd Galwedigaethol amser llawn a datblygu rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau therapiwtig i'r cleifion. Felly, roedd yn gadarnhaol gweld bod Therapydd Galwedigaethol wedi'i benodi ers hynny. Fodd bynnag, er i ni weld rhai gweithgareddau yn cael eu cynnal yn ystod yr arolygiad, roeddem o'r farn y gellid gwneud rhagor o welliannau mewn perthynas â chreadigrwydd ac amrywiaeth y gweithgareddau sydd ar gael er mwyn cynyddu cyfranogiad a chefnogi cleifion er mwyn eu paratoi i gael eu rhyddhau o'r uned. Dywedodd dau o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur hefyd nad oedd digon o weithgareddau priodol i gleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r rhaglen bresennol o weithgareddau therapiwtig a gweithio gyda chleifion er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau sydd ar gael i gleifion a darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau iddynt.

Gwelsom fod cleifion yn cael cymorth i gyflawni tasgau personol beunyddiol er mwyn helpu i hyrwyddo eu hannibyniaeth. Roedd y cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain ac roeddent yn cael eu hannog i gynnal eu hylendid personol gyda chymorth ar gael os oedd ei angen.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael mynegi eu barn ynghylch sut roeddent am gael eu cefnogi. Gwelsom enghraifft gadarnhaol lle roedd siart liwiau o ymddygiad sy'n gwaethygu a'r camau cyfatebol i'w cymryd gan staff, wedi'u datblygu gan staff gyda'r claf. Yna, cafodd cardiau wedi'u lamineiddio eu rhoi i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol ac yn deall sut i gefnogi'r claf a'i dawelu os oedd angen.

Amserol

Gofal amserol

Roedd yn ymddangos bod staff clinigol ac aelodau'r tîm aml-ddisgyblaethol yn gadarnhaol a rhagweithiol iawn o ran y gofal a'r driniaeth a oedd yn cael eu rhoi i gleifion. Gwelsom y cleifion yn cael gofal amserol yn unol â'u hanghenion clinigol. Roedd hyn yn cael ei ategu gan gyfleoedd priodol i adolygu anghenion y cleifion ac i gymryd camau lle y bo'n briodol, gan gynnwys wrth drosglwyddo sifftiau, yn ystod cyfarfodydd staff a chleifion, ac yn ystod rowndiau ward.

Roedd uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd yn cynnal cyfarfodydd rheoli statws gwelyau digonol i gadarnhau lefelau defnydd gwelyau, ac i drafod y cleifion a oedd yn aros i gael eu rhyddhau o'r uned.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod gan aelodau'r staff wybodaeth dda am anghenion a disgwyliadau unigol pob claf. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â rhai cleifion a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, a mynegwyd pryder i ni fod aelodau o staff, mewn rhai achosion, yn defnyddio iaith neu ymadroddion a oedd yn sbardunau hysbys i gleifion yn yr uned, a hynny'n anfwriadol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ac yn deall bod geiriau ac ymadroddion penodol na ddylid eu defnyddio ym mhresenoldeb cleifion rhag ofn y byddai hynny'n gwneud eu hymddygiad yn waeth.

Er gwaethaf hyn, gwelsom enghreifftiau da o gyfathrebu cadarnhaol rhwng staff a theuluoedd, yr oedd yn ymddangos eu bod yn cael eu cynnwys yn dda mewn penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud am y gofal a oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y cleifion a/neu eu heiriolwyr yn cael eu hysbysu am benderfyniadau am eu gofal a'u bod yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau hynny.

Rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol ers ein harolygiad diwethaf mewn perthynas â'r amrywiaeth o wybodaeth a oedd ar gael i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am Gweithio i Wella a gwasanaethau megis y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion a'r gwasanaeth eirioli. Gwelsom hefyd fod canllaw newydd i gleifion wedi'i lunio a oedd ar ffurf llyfryn hawdd ei ddeall y nodwyd gennym ei fod yn arfer da. Roedd bwrdd 'Pwy yw pwy' hefyd yn cael ei arddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion am yr aelodau o staff a oedd yn gweithio yn yr uned yn unol â model gofal 'Safewards'.

Hawliau a chydaddoldeb

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfreithiol tri chlaf a oedd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y ddogfennaeth a welsom yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod). Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod gwybodaeth hawdd ei deall ar gael i'r cleifion er mwyn rhoi gwybod iddynt am eu hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd eiriolwr iechyd

meddwl ar gael i bob claf bob wythnos, a oedd yn rhoi gwybodaeth a chymorth i'r cleifion o ran unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas â'u gofal.

Roedd ystafell breifat ar gael i'r cleifion gwrdd â'u teuluoedd a'u ffrindiau yn breifat. Roedd asesiad risg addas wedi'i gynnal ar gyfer pob claf cyn caniatáu iddo ddefnyddio ei ffôn symudol ei hun. Dywedwyd wrthym fod ffôn ar gael yn y swyddfa nyrsio i'r cleifion ei ddefnyddio petaent yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad nid oedd y llinell ffôn yn gweithio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llinell ffôn yn cael ei hatgyweirio er mwyn i'r cleifion allu ei defnyddio os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Yr Amgylchedd

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwelliannau wedi'u gwneud i amgylchedd mewnol yr uned ers ein harolygiad diwethaf. Roedd yr ystafell golchi dillad wedi cael ei thacluso a'i haildrefnu, roedd yr ystafell weithgareddau hefyd wedi'i thacluso ac roedd gwaith ystadau wedi'i wneud megis gosod tanc dŵr a thanc boeler newydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yna heriau o hyd mewn perthynas â chynnal a chadw'r amgylchedd yn y dyfodol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y goleuadau yn gweithio yn ystafell y staff ac nid oedd y golau allanol y tu allan i'r brif fynedfa yn gweithio. Dywedwyd wrthym hefyd fod toiled y staff yn blocio'n rheolaidd.

Gwelsom hefyd wydr wedi torri ar y llwybrau y tu allan i'r uned a dywedwyd wrthym fod staff wedi rhoi gwybod ar sawl achlysur am ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'r nos ar safle ehangach yr ysbyty. Roedd ein tîm o'r farn na fyddai hyn yn rhoi argraff gyntaf dda i gleifion a'u teuluoedd fod yr uned yn lle diogel i gael gofal. Atebodd dau o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur hefyd nad oedd yr amgylchedd yn addas i ddiwallu anghenion cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y materion cynnal a chadw a nodwyd gan y staff yn cael eu hunioni mewn modd amserol a bod gwaith ystadau yn cael ei wneud er mwyn gwella edrychiad allanol yr adeilad a'r ardaloedd cyfagos y tu allan i'r uned.

Roedd yn anodd dod o hyd i'r uned ar noson gyntaf yr arolygiad gan nad oedd digon o arwyddion ar safle'r ysbyty i ddangos ble mae wedi'i lleoli. Efallai y bydd y bwrdd iechyd am ystyried gwella'r arwyddion er mwyn sicrhau y gall cleifion, teuluoedd ac ymwelwyr ddod o hyd i'r uned yn hawdd.

Rheoli risg

Ni chawsom sicrwydd llwyr bod prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau yn addas er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn yr uned. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio pe bai argyfwng. Roedd y staff yn gwybod ble roedd y torwyr clymau yn cael eu cadw ym mhob rhan o'r uned i'w defnyddio pe bai argyfwng hunan-niweidio. Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar adfywio ac roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd yr archwiliadau hyn wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau.

Gwelsom y dylai'r Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol fod wedi cael ei adolygu ym mis Mawrth 2022 ac, felly, nad oedd yn gyfredol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y polisi ei ddiweddarau a'i rannu â'r staff pan fydd wedi cael ei gymeradwyo.

Roedd asesiadau risg pwyntiau clymu rheolaidd wedi'u cynnal a oedd yn nodi pa gamau a oedd wedi cael eu cymryd i symud neu reoli pwyntiau clymu posibl. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd yr asesiad risg pwyntiau clymu mwyaf diweddar a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 wedi nodi bod gwely bariatrig yn ystafell wely un claf yn peri risg pwyntiau clymu bosibl. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a ddiweddarodd yr asesiad risg pwyntiau clymu ar unwaith er mwyn cynnwys y risg hon a'r camau a gymerwyd i'w lliniaru. Rydym yn deall nad oes modd nodi a dileu pob risg pwyntiau clymu posibl. Fodd bynnag, roedd ein tîm o'r farn bod risgiau pwyntiau clymu sy'n gysylltiedig â gwelyau bariatrig a gwelyau meddygol eraill yn dra hysbys ac y dylent fod wedi cael eu nodi fel rhan o'r asesiad risg gwreiddiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob risg pwyntiau clymu ei nodi (o fewn rheswm) fel rhan o'i asesiad risg pwyntiau clymu.

Dywedwyd wrthym fod rhestr wirio 'Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty' wedi'i chyflwyno ers ein harolygiad blaenorol. Roedd rhestrau gwirio Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty yn cael eu cwblhau bob tri mis er mwyn nodi unrhyw faterion yn yr uned. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod rhestrau gwirio wedi'u cwblhau Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty yn cael eu goruchwyllo'n briodol er mwyn sicrhau y byddai camau yn cael eu cymryd mewn ymateb i unrhyw risgiau a oedd wedi'u nodi. Er enghraifft, yn ystod noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom nad oedd diffoddwr tân yn yr ystafell ymolchi gymunol wedi'i wasanaethu ers 2021. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a drefnodd i'r diffoddwr tân gael ei wasanaethu y diwrnod canlynol. Yn ystod adolygiad o restrau gwirio blaenorol Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty, nodwyd gennym ei fod wedi nodi, ym mis Mai 2023, fod angen gwasanaethu'r diffoddwr tân. Nid oedd yn dderbyniol bod y mater hwn heb ei unioni tan ein harolygiad.

Rhaid gwella'r broses o archwilio a monitro rhestrau gwirio Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty er mwyn sicrhau y caiff unrhyw faterion a nodir eu blaenoriaethu ac y cymerir camau i fynd i'r afael â nhw mewn modd mwy amserol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr uned. Roedd polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau a oedd ar waith er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd pob rhan o'r uned yn lân ac yn daclus yr olwg.

Roedd arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig wedi cael ei benodi ac roedd yn ymddangos bod dull ar y cyd o roi gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ar waith ymhlith staff nyrsio, cadw tŷ a chynnal a chadw. Roedd archwiliadau rheolaidd, megis archwiliadau hylendid dwylo, wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Roedd y mwyafrif o aelodau'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith. Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau ac roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau.

Dyweddodd aelodau o'r staff wrthym fod lle storio yn broblem, gydag un o ystafelloedd y cleifion nad oedd yn cael ei defnyddio yn cael ei defnyddio ar y pryd i storio cyfarpar a oedd wedi torri neu gyfarpar nad oedd ei angen mwyach.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu capasiti storio yn yr uned a sicrhau y ceir gwared ar unrhyw gyfarpar sydd wedi torri neu unrhyw gyfarpar nad oes ei angen mwyach mewn modd amserol.

Nodwyd gennym ei bod yn ofynnol i staff wisgo lifrai tra roeddent yn gweithio yn yr uned. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gyfleusterau newid yn yr uned, a oedd yn golygu bod yn rhaid i'r staff newid yn rhoiled y staff yn aml, a oedd yn peri risg rheoli heintiau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu cyfleusterau newid addas er mwyn i'r staff allu newid eu lifrai cyn ac ar ôl eu sifftiau.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod mesurau addas ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau y dylai'r staff eu dilyn pe byddai ganddynt bryder diogelu. Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gwybod sut i roi'r gweithdrefnau hyn ar waith yng nghyd-destun eu dyletswyddau. Roedd hyn yn cynnwys nodi materion diogelu a gweithredu arnynt. Gwnaethom edrych ar ddata hyfforddiant a gwelsom fod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Roedd trefniadau da ar waith i oruchwylio materion diogelu ar lefel reoli gan uwch-aelodau o'r staff nyrsio a thimau diogelu'r bwrdd iechyd. Roedd y materion hyn yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd llywodraethu perthnasol at ddibenion adolygu a monitro.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cyflwyno cais i'r bwrdd iechyd yn y gorffennol am gyfarpar meddygol i gynnal gwiriadau pwysedd gwaed ac ocsigen ar gleifion. Fodd bynnag, nid oedd y cyfarpar meddygol wedi'u darparu eto, a oedd yn golygu bod yn rhaid i'r staff brynu a defnyddio un a brynwyd yn allanol o siop.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar meddygol sydd ei angen yn cael ei ddarparu i'r uned a'i galibradu a'i wasanaethu'n briodol er mwyn sicrhau y gellir cynnal arsylwadau manwl gywir ar gleifion.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau addas ar waith. Nodwyd gennym fod edrychiad yr ystafell clinig wedi gwella'n sylweddol a'i bod yn llawer taclusach. Roedd meddyginiaeth bellach yn drefnus iawn ac yn cael ei storio'n ddiogel. Gwelsom aelodau o'r staff yn cloi'r cypyrddau meddyginiaeth a'r oergelloedd pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol o dymheredd yr ystafell clinig a'r oergell feddyginiaeth yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, gwelsom nifer bach o fylchau ar y taflenni cofnodi tymheredd ar gyfer y naill a'r llall.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am bwysigrwydd cynnal a dogfennu gwiriadau o'r fath.

Roedd fferylllydd yn ymweld â'r uned bob wythnos i ddarparu cymorth i'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gwiriadau stoc rheolaidd. Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu cofnodi'n briodol a bod y staff yn llofnodi'n briodol ar eu cyfer. Roedd ffeil yn cael ei chadw yn yr ystafell clinig er mwyn i'r staff gofnodi'r holl feddyginiaeth a archebwyd ac a ddanfonwyd i'r uned. Fodd bynnag, nodwyd gennym rai achosion lle nad oedd y staff yn llofnodi i gofnodi bod y feddyginiaeth wedi'i derbyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am bwysigrwydd cynnal a dogfennu gwiriadau o'r fath at ddibenion archwilio a rheoli stoc.

Roedd yn gadarnhaol bod trafodaethau ymhlith aelodau'r tîm amlddisgyblaethol ynghylch dos ac effeithiolrwydd meddyginiaeth a ragnodwyd i gleifion yn cael eu cynnal yn ystod rowndiau wardiau. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod un claf yn cael meddyginiaeth reolaidd drwy bigiad mewngyhyrol a oedd yn aml yn cael ei roi gan ddal y claf wyneb i fyny. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i'r claf gael ei ryddhau o'r uned yn fuan ac na fyddai angen meddyginiaeth fewngyhyrol ar y claf pan fyddai yn y gymuned. Roedd hyn yn golygu na chawsom sicrwydd bod y presgripsiwn ar gyfer cael meddyginiaeth fewngyhyrol tra roedd y claf yn yr uned

yn briodol iddo, yn arbennig o ystyried bod y feddyginiaeth wedi'i rhoi iddo ar adegau gan ei ddal wyneb i fyny.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth fewngyhyrol i'r claf, a'r defnydd o'r dechneg 'dal claf wyneb i fyny' i'w rhoi iddo, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod er lles pennaf y claf.

Gwelsom sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda. Roedd y siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, ac roedd rheswm yn cael ei gofnodi pan nad oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi. Nodwyd gennym fod lluniau o'r cleifion bellach yn cael eu cynnwys ochr yn ochr â'r siartiau MAR, a oedd yn welliant ers ein harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, gwelsom fod tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu storio mewn ffolder gwahanol i'r siartiau MAR, a oedd yn ei gwneud yn fwy anodd i staff nyrsio gadarnhau eu bod yn rhoi meddyginiaeth a oedd yn adlewyrchu'r ffurflenni cydsynio i driniaeth.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen cydsynio i driniaeth yn cael ei storio ochr yn ochr â'r siartiau MAR er mwyn sicrhau y gall y staff nyrsio gael gafael arnynt yn haws.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Mae'r uned wedi mabwysiadu egwyddorion model 'Safewards'. Roedd egwyddorion cymorth ymddygiadol cadarnhaol yn cael eu defnyddio i bennu lefel y risg ac i annog pobl i gymryd risgiau cadarnhaol. Roedd cynlluniau cymorth ymddygiadol cadarnhaol yn fanwl ac yn cynnwys strategaethau personol ar gyfer atal a rheoli ymddygiad heriol.

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, nodwyd gennym fod meddyginiaeth fewngyhyrol yn aml yn cael ei rhoi i un claf gan ei ddal wyneb i fyny. Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn y cynllun cymorth ymddygiadol cadarnhaol ar gyfer y claf hwn fod y tîm amlddisgyblaethol wedi cytuno a rhagnodi y dylid defnyddio'r dechneg 'dal wyneb i fyny' fel yr opsiwn lleiaf cyfyngol neu fwyaf diogel ar gyfer rhoi'r feddyginiaeth fewngyhyrol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau cymorth ymddygiadol cadarnhaol yn nodi bod y defnydd o'r dechneg 'dal wyneb i fyny' wedi'i ragnodi ar gyfer rhoi meddyginiaeth fewngyhyrol a'r rhesymau pam mae angen defnyddio'r ymyriad hwn yn hytrach nag opsiynau llai cyfyngol amgen. Dylai'r cynllun

cymorth ymddygiadol cadarnhaol hefyd nodi'r trefniadau adolygu sydd ar waith mewn perthynas â'r presgripsiwn.

At hynny, ni allem weld unrhyw dystiolaeth bod asesiad risg ar waith a oedd yn dangos ei fod yn addas ac yn nodi'r mesurau lliniaru a oedd ar waith er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth fewngyhyrol yn cael ei rhoi'n ddiogel i gleifion tra roeddent yn cael eu hatal yn gorfforol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu asesiad risg ar gyfer rhoi meddyginiaeth fewngyhyrol i gleifion tra byddant yn cael eu hatal yn gorfforol er mwyn sicrhau ei bod yn briodol a bod hynny'n cael ei wneud yn ddiogel.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn arsylwi ar y cleifion yn amlach pe bai'r cleifion yn parhau i beri risgiau cynyddol. Roedd ardal gofal uwch ar gael yn yr uned petai angen darparu cymorth ychwanegol i gleifion neu eu monitro'n fwy gofalus. Gwelsom fod yr ardal gofal uwch yn addas at y diben ac y gellir arsylwi ar gleifion drwy ffenestr fonitro. Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth arsylwi uwch a gweld bod y cofnodion yn cael eu cwblhau'n briodol, a oedd yn welliant cadarnhaol ers ein harolygiad diwethaf.

Roedd achosion o atal cleifion yn gorfforol yn cael eu cofnodi'n electronig gan y staff ar Datix. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y ffurflenni adrodd yn nodi'r rhesymau pam y cafodd cleifion eu hatal yn gorfforol nac ychwaith y camau a oedd wedi'u cymryd cyn atal y cleifion yn gorfforol. Roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd dod i'r casgliad p'un a oedd y claf wedi cael ei atal yn gorfforol fel y dewis olaf. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a wnaeth ddiwygio'r ffurflenni er mwyn cynnwys y wybodaeth hon yn y dyfodol.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod cynlluniau lleihau arferion cyfyngol ar waith. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff, a drafododd y posibilrwydd o roi templed ar waith a oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd gan dimau anabledau dysgu cymunedol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau bod cynllunio lleihau arferion cyfyngol yn cael eu datblygu i gleifion sydd eu hangen.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi ar weithdy diwrnod hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar hanes un o'r cleifion yn yr uned. Roedd cryn nifer o weithwyr proffesiynol o'r tîm amlddisgyblaethol a'r gymuned leol yn bresennol yn y gweithdy. Cafodd y sesiwn ei harwain ar y cyd gan y claf a seicolegydd ac roedd y trafodaethau yn canolbwyntio ar nodi sbardunau a phatrymau rhwng y claf, y staff a chleifion eraill er mwyn lliniaru ymddygiad sy'n gwaethygu. Trafododd y gweithdy

hefyd ymyriadau y gellid eu defnyddio megis therapi teuluol ochr yn ochr â therapiau eraill. Gwelsom fod y gweithdy yn enghraifft ragorol o waith tîm amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Maeth a hydradu

Gwelsom dystiolaeth bod anghenion deietegol y cleifion wedi cael eu hasesu pan gawsant eu derbyn gan ddefnyddio'r Adnodd Sgrinio Diffyg Maeth Cyffredinol (MUST). Gwelsom fod anghenion deietegol penodol wedi cael eu nodi pan oedd angen. Dywedwyd wrthym fod Therapydd Lleferydd ac Iaith ar Gael ar y safle sy'n asesu pob claf ac yn rhoi cyngor lle y bo angen. Gallai cleifion hefyd gael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth deietetig pe bai angen.

Gwelsom dystiolaeth bod anghenion deietegol penodol wedi'u nodi yn y cynlluniau gofal a thriniaeth a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael gwiriadau rheoli pwysau parhaus yn ystod eu cyfnod yn yr uned.

Roedd bwyd yn cael ei ddarparu i'r cleifion gan yr ysbyty cyffredinol lleol. Gallai'r cleifion ddewis eu prydau o fwydlen bob bore. Roedd bwydlen ddarluniadol ar gael er mwyn i'r cleifion allu deall y fwydlen brecwast, y gwnaethom nodi ei fod yn arfer da. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio ar lunio cymhorthion gweledol ar gyfer prydau bwyd eraill hefyd. Roedd diodydd poeth ac oer ar gael i'r cleifion a gallent gael eu byrbrydau eu hunain. Dywedodd y staff wrthym eu bod ym monitro nifer y byrbrydau a'r mathau o fyrbrydau y mae cleifion yn eu cael er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol arnynt.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf ffeiliau papur ac ar ffurf electronig. Gwelsom fod cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd cyfrinair ar y cofnodion electronig er mwyn atal mynediad heb awdurdod a thor-cyfrinachedd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o gofnodion y cleifion ar gyfer un o'r cleifion yn yr uned. Nid oedd y cofnodion bob amser yn hawdd eu dilyn am fod rhywfaint o'r wybodaeth ar gael ar-lein a rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chadw mewn ffeiliau papur. Er enghraifft, gwelsom fod rhai asesiadau yn cael eu storio'n electronig ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, tra bod gwybodaeth arall megis cymorth ymddygiadol cadarnhaol a chynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu cynnal ar bapur. Efallai y bydd y bwrdd iechyd am ystyried ble mae gwybodaeth yn cael ei storio er mwyn ei gwneud yn haws i staff ddod o hyd i wybodaeth berthnasol am ofal a thriniaeth pob claf.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych dros ddogfennau cadw statudol tri chlaf yn yr uned. Roedd yr holl gofnodion yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon. Roedd rhesymau clir yn cael eu dogfennu i ddangos pam mai eu cadw o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r cleifion.

Roedd y ddogfennaeth statudol yn cael ei storio'n electronig, mewn ffeiliau papur yn yr uned, ac mewn ffeiliau papur yn swyddfa gweinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn Ysbyty Sant Cadog. Creodd hyn rywffaint o ddryswch wrth geisio dod o hyd i'r ddogfennaeth berthnasol. Er enghraifft, roedd gwaith papur y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn cael ei storio yn Ysbyty Sant Cadog ac nid yn yr uned. Gwnaethom godi hyn gyda'r gweinyddydd a roddodd sicrwydd i ni y byddai copïau o waith papur y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn cael eu storio yn yr uned yn y dyfodol.

Nodwyd gennym hefyd nad oedd cofnodion yr ymgynghoriadau ag Ymgynghoreion Statudol â'r Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn yn cael eu cadw. Gwnaethom godi hyn unwaith eto gyda'r gweinyddydd a ddywedodd wrthym y byddai'n datblygu ffurflen i'w chwblhau gan yr Ymgynghoreion Statudol yn dilyn eu hymgyngoriadau â Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran datblygu'r ffurflen i'r Ymgynghoreion Statudol ac a yw hyn wedi'i ymgorffori mewn ymarfer.

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â'r ddogfennaeth i gleifion sy'n cael caniatâd i adael yr ysbyty o dan Adran 17 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Ni welsom unrhyw dystiolaeth ar y ffurflenni Adran 17 o unrhyw risgiau a nodwyd mewn perthynas â phob cyfnod o absenoldeb nac unrhyw gamau lliniaru y dylid eu cymryd i leihau unrhyw risgiau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir asesiad risg priodol ar gyfer unrhyw gyfnodau o absenoldeb Adran 17 a bod y cyfnodau hynny yn cael eu dogfennu ar y ffurflen absenoldeb Adran 17.

Nodwyd gennym hefyd, er bod lle ar y ffurflen Adran 17 i gofnodi a oedd cleifion wedi cael copi o'r ffurflen neu wedi cael cynnig copi ohoni, nad oedd hyn bob amser yn cael ei gofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi ar y ffurflen absenoldeb Adran 17 p'un a yw cleifion wedi cael copi o'r ffurflen, neu wedi cael cynnig copi ohoni ac wedi'i wrthod, ai peidio.

Nodwyd gennym rai achosion lle roedd enwau gwahanol wedi'u defnyddio i gyfeirio at gleifion yng nghofnodion a dogfennaeth gyfreithiol y cleifion. Er enghraifft, roedd digwyddiadau Datix a ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn cael eu cwblhau ar gyfer un claf ond roedd system Datix a'r ffurflenni yn cynnwys enwau gwahanol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn defnyddio'r un enw ar gyfer y claf er mwyn osgoi dryswch, yn enwedig yn y ddogfennaeth gyfreithiol.

Gwelsom fod archwiliadau misol o'r ddogfennaeth gyfreithiol yn cael eu cynnal er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r canllawiau arferion gorau. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i System Archwilio, Rheoli ac Orlhain newydd gael ei rhoi ar waith gan y bwrdd iechyd sy'n cynnwys 15 o feysydd gwasanaeth a fydd yn cynnwys cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Gwelsom fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl ymhlith aelodau o'r staff yn isel ar 38 y cant. Dywedwyd wrthym fod rhaglen hyfforddiant anffurfiol yn cael ei chyflwyno ym mhob rhan o'r is-adran er mwyn gwella lefelau cydymffurfiaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau eu hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a rhoi diweddariad i AGIC ar y ffigur diweddaraf ar gyfer cydymffurfiaeth.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal

Roedd y cynllun gofal a thriniaeth y gwnaethom edrych arno yn adlewyrchu'r meini prawf a nodir gan Fesur Iechyd Meddwl 2010. Roedd yn fanwl iawn, wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o waith gan y tîm amlddisgyblaethol. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Roedd y cynllun gofal a thriniaeth yn nodi amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys gweithgareddau therapiwtig a chymdeithasol, a oedd yn briodol ac yn gallu diwallu anghenion y claf.

Roedd hefyd yn amlwg bod y claf wedi cael ei gynnwys yn y broses o gydgyllunio ei gynllun gofal a thriniaeth.

Nodwyd gennym nad oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn y cynlluniau gofal a thriniaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dewis iaith pob claf yn cael ei nodi a'i gofnodi er mwyn i anghenion ieithyddol perthnasol allu cael eu diwallu.

Gwelsom dystiolaeth bod y cynlluniau gofal a thriniaeth wedi'u hadolygu'n rheolaidd ac mewn modd amserol.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o wasanaethau a'u derbyn i wasanaethau yn ymddangos yn gadarn ac yn effeithlon. Caiff cleifion eu rhyddhau o'r uned â chynllun wrth gefn rhag ofn y bydd angen eu haildderbyn i'r ysbyty. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn monitro cynnydd cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r uned er mwyn sicrhau y gellir ymyrryd yn gynnar os bydd angen. Gwelsom dystiolaeth bod teuluoedd a/neu ofalwyr cleifion yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cynllunio trefniadau rhyddhau pan fo'n briodol. Cawsom wybod am achosion lle mae staff yr uned wedi gweithio ochr yn ochr â chleifion yn y gymuned ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r uned er mwyn helpu i ddarparu cymorth ychwanegol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd pum aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu i gleifion yn y lleoliad ac y byddent yn argymhell eu lleoliad fel man i weithio ynddo.

Roedd pedwar o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno mai gofalu am gleifion yw prif flaenoriaeth eu sefydliad a'u bod yn fodlon ar ymdrechion y sefydliad i gadw staff a chleifion yn ddiogel.

Roedd pob un o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod eu patrwm gwaith cyfredol yn sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Fodd bynnag, roedd dau o'r pum aelod o staff yn anghytuno â'r gosodiadau 'Ar y cyfan, nid yw fy swydd yn cael effaith andwyol ar fy iechyd' ac 'Mae fy sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant'. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr agwedd hon ar yr adborth a gweithio gyda'r staff er mwyn nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae canlyniadau eraill yr holiadur staff yn ymddangos yn yr adran hon o'r adroddiad.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwelliannau wedi cael eu gwneud mewn sawl maes ers ein harolygiad blaenorol yn yr ysbyty. Roedd yn ymddangos bod diwylliant ac agwedd dda ymhlith y staff wrth weithio tuag at wella ansawdd y gofal a'r driniaeth a roddir i gleifion.

Roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu yn dilyn ein harolygiad blaenorol a gwelsom fod cynnydd da wedi'i wneud, gyda'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, rhaid i'r staff sicrhau bod y camau gweithredu a roddwyd ar waith yn cael eu hymgorffori yng ngwaith y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Er enghraifft:

- Un cam gweithredu a gwblhawyd oedd cyflwyno proffiliau byr ar gyfer pob claf a oedd yn disgrifio eu hoffterau a'u cas bethau. Pan wnaethom edrych ar y proffiliau byr, gwelsom nad oedd gan ddau glaf presennol broffiliau byr, tra roedd proffiliau byr ar gyfer dau glaf nad oeddent yn yr uned mwyach.

- Cam gweithredu arall a gwblhawyd oedd rhoi menter bwyta'n iach ar waith, a oedd yn cynnwys nodi hyrwyddwr byw'n iach ac ailgyflwyno'r grŵp byw'n iach. Fodd bynnag, pan wnaethom siarad â'r staff, gwnaethant ddweud wrthym nad oedd y fenter bwyta'n iach wedi'i rhoi ar waith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff camau gweithredu o'r cynllun gwella eu hymgorffori yn y prosesau busnes ar gyfer y gwasanaeth a'u monitro er mwyn olrhain cynnydd.

Dywedodd pob un o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad a'u bod yn ymrwymedig i ofal cleifion. Roedd pedwar o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng staff llawn cymhelliant y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwr yr uned, uwch-reolwyr a staff ar alwad. Cafwyd adborth cadarnhaol gan bob un o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur ynglŷn â'u rheolwr llinell uniongyrchol.

Roedd dau o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo nad oeddent yn cael digon o amser i roi'r gofal a'r sylw sydd eu hangen ar gleifion ac nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Rhoddodd un aelod o'r staff yr ateb canlynol pan ofynnwyd sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu:

“Mae angen cyflogi digon o staff i ddarparu ar gyfer seibiannau iechyd meddwl - amser i ffwrdd o arsylwi a rheoli tasgau beunyddiol eraill ar y ward yn ogystal â chynnal lefelau tosturi a sicrhau llesiant/diogelwch y staff.”

Fodd bynnag, roedd y lefelau staffio yn ymddangos yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn yr uned. Serch hynny, dylai'r bwrdd iechyd ystyried y sylwadau a'r adborth a ddarperir gan y staff. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y defnydd o staff asiantaeth wedi lleihau ers ein harolygiad blaenorol.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i uwch-aelodau o'r staff fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn uchel ymhlith y staff. Dywedodd pedwar o'r pum aelod o

staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod yr hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol a rhoi profiad gwell i'r cleifion.

Roedd yn ymddangos bod cyflwyno diwrnodau hyfforddiant staff yn ychwanegiad gwerthfawr at y gwaith o ddatblygu'r tîm. Rhoddodd y staff adborth cadarnhaol yn ystod yr arolygiad ac roeddent yn teimlo eu bod yn adnodd defnyddiol er mwyn helpu i ledaenu gwybodaeth bwysig i'r tîm.

Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod 90 y cant o'r aelodau o staff wedi cael eu harfarniad blynyddol i drafod eu perfformiad ac i bennu amcanion blynyddol. Cadarnhaodd pob un o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael arfarniad o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd cyfarfodydd 'cyd-gymorth' wythnosol yn cael eu cynnal lle y gallai'r cleifion ymgysylltu â'r staff a rhoi adborth anffurfiol iddynt ar unrhyw broblemau a oedd ganddynt. Roedd bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos a oedd yn nodi'r camau a gymerwyd gan y staff mewn ymateb i broblemau a godwyd gan gleifion. Fodd bynnag, er mai'r dyddiad ar y bwrdd oedd mis Ebrill 2024, nodwyd gennym fod un o'r camau gweithredu ar y bwrdd yn rhoi gwybod i'r cleifion y byddai bwyd yn cael ei ddarparu'n fuan gan yr ysbyty cyffredinol lleol yn hytrach na'r ysbyty sirol lleol. Digwyddodd y newid hwn ym mis Tachwedd 2023 ac, felly ni chawsom sicrwydd fod y bwrdd yn dangos y wybodaeth fwyaf diweddar.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am gamau a gymerir mewn perthynas ag unrhyw faterion cyfredol a godir.

Gwelsom wybodaeth glir yn cael ei harddangos yn yr uned am y ffordd y gallai cleifion a'u teuluoedd neu eu gofalwyr roi adborth ffurfiol ar eu gofal. Roedd poster 'Sut alla i wneud cwyn?' yn cael ei arddangos ger y fynedfa a oedd yn cynnwys enwau rheolwr yr uned, yr uwch-nyrs a'r arweinydd Gweithio i Wella. Nodwyd gennym hefyd fod manylion cyswllt gwasanaethau eirioli lleol ac AGIC yn cael eu harddangos pe bai cleifion yn dymuno cysylltu â nhw. Dywedodd pedwar o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth ar brofiadau cleifion.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau ac roeddent yn cytuno bod eu sefydliad yn cymryd camau i sicrhau na fyddai achosion o'r fath yn codi eto.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod gweithdrefnau lleol sefydledig ar waith er mwyn rhoi arweiniad i'r staff. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym nad oedd nifer o bolisiau neu weithdrefnau'r bwrdd iechyd yn gyfredol mwyach neu fod angen eu hadolygu. Felly, roedd yn siomedig gweld nad oedd rhai o bolisiau'r bwrdd iechyd wedi cael eu diweddarau. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau allweddol ar gyfer diogelwch cleifion megis rheoli meddyginiaethau, defnyddio ymyriadau Corfforol Cyfyngol a diogelu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau nad ydynt yn gyfredol mwyach fel mater o flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u bod yn rhoi arweiniad clir i'r staff. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn â phryd y caiff y polisiau a nodir yn yr adroddiad hwn, ac yn ein hadroddiad arolygu blaenorol, eu cymeradwyo.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod gwelliant wedi bod ers ein harolygiad blaenorol o ran goruchwyllo gweithgareddau archwilio a digwyddiadau adroddadwy er mwyn monitro ansawdd y gofal a'r driniaeth a oedd yn cael eu darparu. Roedd yn ymddangos bod y staff wedi cael eu grymuso i gymryd mwy o berchenogaeth a bod yn fwy atebol. Roedd rheolwr yr uned bellach yn gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau a'u cymeradwyo. Roedd Rheolwr Gwella Gwasanaethau wedi'i recriwtio er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau. Bydd cyflwyno'r system Archwilio, Rheoli ac Orlhain newydd hefyd yn helpu'r staff i werthuso'r gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarfodydd rheoli rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn trafod materion yn ymwneud â staffio, gwelyau a digwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod Diogelwch a Phrofiad Cleifion o Ansawdd Uchel chwarterol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd yr un aelod o staff yr uned wedi bod yn bresennol yn y ddau gyfarfod blaenorol (mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024). Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uned yn cael ei chynrychioli yn y cyfarfodydd hyn pryd bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau cyfathrebu parhaus.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio priodol mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal yn y cynllun gofal a thriniaeth y gwnaethom edrych arno, ynghyd â

chyfranogiad da gan y tîm amlddisgyblaethol, cydgysylltwyr gofal a gwasanaethau partner perthnasol yn y gymuned leol.

Roedd pedwar o'r pum aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod gwaith partneriaeth â sefydliadau eraill yn effeithiol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty'r GIG, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 22, 23 a 24 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty'r GIG, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 22, 23 a 24 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd rhai estyll rhydd ar y decin yn yr ardd a oedd yn peri risg y byddai cleifion yn cwmpo.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr estyll rhydd ar y decin yn cael eu hatgyweirio.	Hybu iechyd	Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio ar unwaith at yr Adran Gwaith ac Ystadau er mwyn i decin gael ei atgyweirio.	Rheolwr/Gweinyddwr y Ward	Wedi'i gwblhau 03/05/24
			Mae bellach yn rhan o'r Gwiriad Wythnosol a'r Aseiad Risg o'r Ardd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw faterion eu uwchgyfeirio ar unwaith at yr Adran Gwaith ac Ystadau.		Wedi'i gwblhau ac yn barhaus o 03/05/24
2. Roeddem o'r farn y gellid gwneud rhagor o welliannau mewn perthynas â chreadigrwydd ac amrywiaeth	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r rhaglen bresennol o weithgareddau therapiwtig a gweithio gyda chleifion er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y	Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn	Mae amserlen bersonol bellach yn cael ei chwblhau bob wythnos ar gyfer pob unigolyn.	Therapydd Galwedigaethol/Arw einydd Clinigol y Ward/Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 03/07/24
			Mae Grŵp 'Bwyta'n Iach' wedi'i ddatblygu, a arweinir gan Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd.		Rheolwr y Ward

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
y gweithgaredda u therapiwtig sydd ar gael i'r cleifion.	gweithgareddau sydd ar gael i gleifion a darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau iddynt.		Mae cyfarfodydd 'Cyd-gymorth' bellach yn gyfarfodydd sefydledig ac maent yn parhau i gael eu cynnal bod dydd Llun lle y caiff gweithgareddau'r wythnos eu trafod a'u cynllunio.	Rheolwr y Ward	Parhaus
			Mae stocrestr o'r holl gyfarpar gweithgareddau yn cael ei chwblhau.	Rheolwr y Ward	Erbyn 31/07/24
			Mae'r Adran Therapi Galwedigaethol yn ystyried opsionau pellach ar gyfer gweithgarwch therapiwtig yn seiliedig ar asesiad o angen galwedigaethol a chyfarfodydd 'cyd-gymorth' a bydd yn parhau i weithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol i gynyddu'r ddarpariaeth.	Therapydd Galwedigaethol	Erbyn 31/07/24
			Mae'r Therapydd Galwedigaethol bellach yn treulio mwy o amser ar y ward.		04/06/24
3. Mynegwyd pryder i ni fod aelodau o staff, mewn	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ac yn deall bod geiriau	Cyfathrebu ac iaith	Rhoddwyd sylw i'r adborth hwn yn ystod Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd/Diwrnodau Hyfforddiant Tŷ Lafant.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 21/05/24 a 25/06/24

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
rhai achosion, yn defnyddio iaith neu ymadroddion a oedd yn sbardunau hysbys i gleifion yn yr uned, a hynny'n anfwriadol.	ac ymadroddion penodol na ddylid eu defnyddio ym mhresenoldeb cleifion rhag ofn y byddai hynny'n gwneud eu hymddygiad yn waeth.		Disgrifir hyn hefyd ym 'mhrhoffil byr' yr unigolyn ar gyfer ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
4. Nid oedd y llinell ffôn yn y swyddfa nyrsio yn gweithio yn ystod yr arolygiad.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llinell ffôn yn cael ei hatgyweirio er mwyn i'r cleifion allu ei defnyddio os byddant yn dymuno gwneud hynny.	Hawliau a chydardoldeb	Mae'r set law wedi cael ei newid ac mae'r ffôn bellach yn gweithio.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 01/05/24
5. Gwelsom fod meysydd i'w gwella mewn perthynas ag edrychiad mewnol ac allanol yr uned a'r adeilad.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y materion cynnal a chadw a nodwyd gan y staff yn cael eu hunioni mewn modd amserol a bod gwaith ystadau yn cael ei wneud er mwyn	Amgylchedd	Cyn gynted ag y caiff problemau o ran yr ystad eu codi, cânt eu hasesu i weld a ydynt yn rhai brys ac anfonir aelodau priodol o staff i ddatrys y broblem cyn gynted â phosibl. Bydd unrhyw achosion o oedi yn parhau i gael eu huwchgyfeirio drwy dîm	Uwch-reolwr Is-adrannol, Cyfleusterau	Parhaus

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
	gwella edrychiad allanol yr adeilad a'r ardaloedd cyfagos y tu allan i'r uned.		Rheoli'r Gyfarwyddiaeth/Is- adran. Bydd materion cynnal a chadw heb eu datrys yn parhau i gael eu huwchgyfeirio at Reolwr y Gyfarwyddiaeth er mwyn iddo eu huwchgyfeirio at y Rheolwr Cyffredinol os byddant yn parhau heb eu datrys.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Parhaus	
6.	Dylai'r Polisi lechyd a Diogelwch Galwedigaetho l fod wedi cael ei adolygu ym mis Mawrth 2022 ac, felly, nid oedd yn gyffredol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y polisi ei ddiweddarau a'i rannu â'r staff pan fydd wedi cael ei gymeradwyo.	Rheoli risg	Mae hyn yn destun adolygiad ar hyn o bryd, wedi'i arwain gan y tîm lechyd a Diogelwch.	Pennaeth lechyd a Diogelwch Tân	Tachwedd 2024
7.	Nid oedd yr asesiad risg pwyntiau clymu a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 wedi nodi bod gwely bariatrig yn	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob risg pwyntiau clymu ei nodi (o fewn rheswm) fel rhan o'i asesiad risg pwyntiau clymu.	Rheoli risg	Diweddarwyd Asesiad Risg Pwyntiau Clymu'r Ward ar 23 Ebrill 2024. Rhaid i Reolwyr Wardiau adolygu'r asesiad risg pwyntiau clymu amgylcheddol pan ddeuir ag unrhyw ddodrefn neu gyfarpar mawr newydd i'r uned. Caiff	Nyrs Arwain Glinigol, Tŷ Lafant	Wedi'i gwblhau 23/04/24

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ystafell wely un claf yn peri risg pwyntiau clymu bosibl.			nodyn atgoffa ei gynnwys yn y rhestr wirio wythnosol ar gyfer nyrsys arwain clinigol. Caiff hyn ei rannu â staff ym mhob rhan o'r Is-adran.		
8. Nodwyd gennym fod mater (ddiffoddwr tân yr oedd ei ddyddiad gwasanaethu wedi mynd heibio) wedi'i nodi yn rhestr wirio Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty a gwblhawyd ym mis Mai 2023 ond nad oedd wedi'i ddatrys tan ein harolygiad.	Rhaid gwella'r broses o archwilio a monitro rhestrau gwirio Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty er mwyn sicrhau y caiff unrhyw faterion a nodir eu blaenoriaethu ac y cymerir camau i fynd i'r afael â nhw mewn modd mwy amserol.	Rheoli risg	Mae'r Diffoddwr Tân bellach wedi cael ei newid.	Gweinyddwr y Ward/Swyddog Diogelwch Tân	Ar unwaith Wedi'i gwblhau 23/04/24
			Mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu cwmni allanol i gwblhau gwiriadau priodol. Cafodd y mater hwn ei ddwyn i sylw'r Swyddog Diogelwch Tân.	Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Wedi'i gwblhau 16/07/24
			Mae manylion cyswllt wedi'u diweddarau Swyddogion Tân wedi'u rhannu â'r Is-adran.	Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Wedi'i gwblhau 17/07/24
9. Dywedwyd wrthym fod lle storio yn broblem yn yr	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu capasiti storio yn yr uned a sicrhau y ceir gwared ar unrhyw	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Cafwyd gwared ar gyfarpar a oedd wedi torri.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 01/05/24

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
uned, gydag un o ystafelloedd y cleifion nad oedd yn cael ei defnyddio yn cael ei defnyddio ar y pryd i storio cyfarpar a oedd wedi torri neu gyfarpar nad oedd ei angen mwyach.	gyfarpar sydd wedi torri neu unrhyw gyfarpar nad oes ei angen mwyach mewn modd amserol.				
			Mae ystafelloedd gwely nad oeddent yn cael eu defnyddio bellach yn cael eu defnyddio fel ardal storio.	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 16/07/24
10. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i staff newid yn nhoiled y staff yn aml gan nad oedd unrhyw gyfleusterau newid yn yr uned.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu cyfleusterau newid addas er mwyn i'r staff allu newid eu lifrai cyn ac ar ôl eu sifftiau.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae ystafell y staff yn Alders House (gyferbyn) a/neu ystafell y staff yn Nhŷ Lafant wedi'u dynodi'n ardaloedd newid, am fod modd cloi'r drws.	Rheolwr/Gweinyddw r y Ward	Wedi'i gwblhau 14/06/24
			Anfonir neges e-bost at bob aelod o'r staff er mwyn rhoi gwybod iddo am hyn.	Rheolwr Gwella Gwasanaethau	Wedi'i gwblhau 24/07/24

Risg/canfyddiad/ mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
11.	Ar hyn o bryd, mae'r staff yn defnyddio cyfarpar meddygol a brynwyd yn allanol o siop yn hytrach na chyfarpar meddygol a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar meddygol sydd ei angen yn cael ei ddarparu i'r uned a'i galibradu a'i wasanaethu'n briodol er mwyn sicrhau y gellir cynnal arsylwadau manwl gywir ar gleifion.	Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol	Archebwyd peiriant newydd a disgwylir iddo gyrraedd ar 21 Awst 2024.	Gweinyddwr y ward	Archebwyd 16/07/24 Disgwylir iddo gael ei gwblhau Awst 2024
				Mae polisi monitro iechyd corfforol yr Is-adran yn cynnwys rhestr wirio o'r cyfarpar sydd ei angen ar bob ward ac adnodd archwilio i'w gwblhau bob chwe mis gan Reolwr y Ward neu ei ddirprwy. Anfonir neges e-bost at Reolwyr y Wardiau ym mhob rhan o'r Is-adran i'w hatgoffa o'r safonau sy'n ofynnol yn y polisi a sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu hymgorffori yn archwiliadau achredu'r wardiau.	Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion	24/07/24
12.	Gwelsom nifer bach o fylchau ar daflenni cofnodi tymheredd yr ystafell clinig a'r oergell feddyginiaeth.	Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am bwysigrwydd cynnal a dogfennu gwiriadau o'r fath.	Rheoli meddyginiaethau	Mae archwiliadau monitro tymheredd yr oergell feddyginiaeth a'r ystafell clinig bellach yn cael eu cwblhau fel rhan o'r amserlen archwilio wardiau wythnosol.	Nyrs Arwain Glinigol	Wedi'i gwblhau 24/04/24 ac yn barhaus
				Bydd Rheolwr y Ward yn adolygu hyn bob wythnos ac yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon at	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 19/07/24 ac yn barhaus

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
			yr Uwch-nyrs, a fydd yn monitro er mwyn nodi unrhyw themâu. Rhoddir gwybod am unrhyw themâu drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth er mwyn dysgu a datrys unrhyw broblemau.			
13.	Gwelsom rai achosion lle nad oedd y staff yn llofnodi i gofnodi bod y feddyginiaeth wedi'i derbyn gan yr uned.	Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am bwysigrwydd cynnal a dogfennu gwiriadau o'r fath at ddibenion archwilio a rheoli stoc.	Rheoli meddyginiaethau	Mae adolygu'r cofnodion hyn bellach yn rhan o wiriadau wythnosol o'r ward. Bydd Rheolwr y Ward yn adolygu hyn bob wythnos ac yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon at yr Uwch-nyrs, a fydd yn monitro er mwyn nodi unrhyw themâu. Rhoddir gwybod am unrhyw themâu drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth er mwyn dysgu a datrys unrhyw broblemau.	Nyrs Arwain Glinigol Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 24/04/24 ac yn barhaus Wedi'i gwblhau ac yn barhaus 19/07/24
14.	Dywedwyd wrthym fod un claf yn cael meddyginiaeth reolaidd drwy bigiad mewngyhyrol a oedd yn aml yn	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth fewngyhyrol i'r claf, a'r defnydd o'r dechneg 'dal claf wyneb i fyny' i'w rhoi iddo, er mwyn sicrhau	Rheoli meddyginiaethau	Caiff gofal y claf ei adolygu yn y cyfarfod aml-ddisgyblaethol wythnosol er mwyn sicrhau ei fod yn gymesur â'r angen. Mae hyn wedi cynnwys goruchwyliaeth seiciatrydd ymgynghorol arall er mwyn sicrhau llywodraethu da.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus bob wythnos

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cael ei roi gan ddal y claf wyneb i fyny.	ei fod yn parhau i fod er lles pennaf y claf.		Mae Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol yn chwarae rhan weithredol yn yr adolygiad hwn o ofal. Caiff canllawiau ar Leihau Arferion Cyfyngol ar y Ward eu datblygu er mwyn sicrhau bod y weithdrefn hon yn glir a'i bod yn cael ei dilyn ar gyfer pob claf. Caiff hyn ei ddatblygu i gwmpasu'r themâu a godir ym mhwyntiau 16-18 o'r cynllun hwn hefyd.	Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Diwedd mis Medi 2024
15. Roedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu storio mewn ffolder ar wahân i'r siartiau MAR.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen cydsynio i driniaeth yn cael ei storio ochr yn ochr â'r siartiau MAR er mwyn sicrhau y gall y staff nyrsio gael gafael arnynt yn haws.	Rheoli meddyginiaet hau	Cafodd tystysgrifau eu hailffeilio ar unwaith i'r un ffeil â'r siartiau MAR.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 24/04/24
16. Roedd un claf yn cael meddyginiaeth fewngyhyrol nad oedd	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl feddyginiaeth wedi'i rhagnodi berthnasol yn cael ei chynnwys yn y	Gofal effeithiol	Cafodd y wybodaeth hon ei diweddarau ar unwaith a'i thrafod ymhellach â'r staff fel rhan o ddiwrnod hyfforddiant y ward.	Pob aelod o'r staff/Arweinydd Clinigol y Ward	Wedi'i gwblhau 24/04/24 a Diwrnod Hyfforddiant 25/06/24

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
wedi'i chynnwys yn yr adran presgripsiynau yng nghynllun cymorth ymddygiadol cadarnhaol y claf.	cynlluniau cymorth ymddygiadol cadarnhaol ar gyfer pob claf.		Mae risgiau yn parhau i gael eu nodi yn Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru a chaiff cynlluniau rheoli eu hadolygu yng nghyfarfodydd wythnosol y tîm amlddisgyblaethol.	Staff nyrsio	Parhaus
			Mae cynlluniau cymorth ymddygiadol cadarnhaol yn parhau i gael eu diweddarau yn ôl y gofyn yn dilyn cyfarfod wythnosol y tîm amlddisgyblaethol a byddant yn cael eu hadolygu fel rhan o wiriadau wythnosol.	Rheolwr y Ward	Parhaus
			Mae Rheolwr y Ward wedi atgoffa'r staff bod yn rhaid iddynt gwblhau pob adran o'r cynllun.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau Diwrnod hyfforddiant 25/06/24
17. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod asesiad risg ar waith i nodi'r mesurau lliniaru a oedd ar waith er mwyn sicrhau bod	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu asesiad risg ar gyfer rhoi meddyginiaeth fewngyhyrol i gleifion tra byddant yn cael eu hatal yn gorfforol er mwyn sicrhau ei bod yn briodol a bod	Gofal effeithiol	Os bydd claf wedi cael meddyginiaeth fewngyhyrol tra roedd yn cael ei atal yn gorfforol ar ddau achlysur, bydd hyn yn sbarduno adolygiad o'i gynllun cymorth ymddygiadol cadarnhaol. Rhaid i'r cynllun cymorth ymddygiadol cadarnhaol gael ei ddiweddarau i gynnwys yr asesiad risg er mwyn llywio'r	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 17/07/24

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
meddyginiaeth fewngyhyrol yn cael ei rhoi'n ddiogel i gleifion tra roeddent yn cael eu hatal yn gorfforol.	hynny'n cael ei wneud yn ddiogel.		ymarfer hwn yn y dyfodol a'r trothwy ar gyfer cynnal adolygiad pellach os bydd ei angen y tu allan i gyfarfod wythnosol y tîm amlddisgyblaethol.		
			Bydd Rheolwr y Ward yn adolygu hyn bob wythnos ac yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon at yr Uwch-nyrs, a fydd yn monitro er mwyn nodi unrhyw themâu. Rhoddir gwybod am unrhyw themâu drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth er mwyn dysgu a datrys unrhyw broblemau.	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/07/24
18. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod cynlluniau lleihau arferion cyfyngol ar waith.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau bod cynllunio lleihau arferion cyfyngol yn cael eu datblygu i gleifion sydd eu hanger.	Gofal effeithiol	Bydd y Gyfarwyddiaeth yn profi'r templad a ddefnyddir gan dimau anableddau dysgu cymunedol er mwyn ei ddiwygio yn ôl y gofyn ar gyfer claf mewnol.	Nyrs Arwain, Anableddau Dysgu	Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2024
			Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn cydgysylltu â byrddau iechyd eraill er mwyn nodi pa gynlluniau sy'n cael eu defnyddio mewn mannau eraill ac yn trafod ymhellach yng nghyfarfod	Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Hydref 2024

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
			Ansawdd a Diogelwch Cleifion yr Is-adran ym mis Medi 2024.			
19.	Nid oedd cofnodion yr ymgyngoriada u ag Ymgynghoreion Statudol â'r Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn yn cael eu cadw unrhyw le.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran datblygu'r ffurflen i'r Ymgynghoreion Statudol ac a yw hyn wedi'i ymgorffori mewn ymarfer.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Gofynnwyd i Adran Gweinyddu'r Ddeddf lechyd Meddwl ddarparu dogfennaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn a chaiff ei hychwanegu at nodiadau papur y cleifion priodol.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 15/07/24
20.	Nid oedd ffurflenni Adran 17 yn dangos unrhyw risgiau a nodwyd mewn perthynas â phob cyfnod o absenoldeb nac unrhyw gamau lliniaru y dylid eu cymryd i leihau unrhyw risgiau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir asesiad risg priodol ar gyfer unrhyw gyfnodau o absenoldeb Adran 17 a bod y cyfnodau hynny yn cael eu dogfennu ar y ffurflen absenoldeb Adran 17.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Caiff risgiau a ffactorau lliniaru eu cofnodi yn y cofnodion clinigol yn hytrach na'r ffurflen absenoldeb a17. Mae ffurflen absenoldeb a17 y Bwrdd lechyd wedi'i llunio yn unol â phara 27.17 o'r Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf lechyd Meddwl (Cymru) 2017. Caiff y mater hwn ei godi yn Fforwm yr Uwch-Seiciatryddion (ar hyn o bryd mae pob clinigydd cyfrifol yn BIPAB yn seiciatrydd)	Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Medi 2024

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
			<p>er mwyn i'r aelodau fod ymwybodol ohono a'i drafod.</p> <p>Nodir hefyd fod adegau yn codi'n aml pan na fydd ychwanegu mesurau lliniaru at ffurflenni (y mae copi ohonynt yn cael ei gynnig i gleifion), o bosibl er lles pennaf y claf o safbwynt clinigol, oherwydd gall hyn dynnu sylw at wybodaeth a fyddai'n cynyddu'r proffil risg glinigol.</p>			
21.	Nodwyd gennym hefyd, er bod lle ar y ffurflen Adran 17 i gofnodi a oedd cleifion wedi cael copi o'r ffurflen neu wedi cael cynnig copi ohoni, nad oedd hyn bob amser yn cael ei gofnodi.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi ar y ffurflen absenoldeb Adran 17 p'un a yw cleifion wedi cael copi o'r ffurflen, neu wedi cael cynnig copi ohoni ac wedi'i wrthod, ai peidio.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	<p>Tynnwyd sylw Clinigwyr Cyfrifol Wardiau at hyn er mwyn sicrhau bod dogfennaeth wedi'i chwblhau'n briodol.</p> <p>Datblygwyd rhestr wirio i nodi a yw cleifion wedi cael cynnig copi o'r ffurflen Adran 17.</p> <p>Caiff hyn ei wirio yn ystod y Rownd Wythnosol o'r Ward.</p>	<p>Staff y Ward/Rheolwr y Ward/Meddygon Ymgynghorol</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Rhodddwyd ar waith ar unwaith 24/04/24</p> <p>Wedi'i gwblhau 15/07/24</p> <p>Wedi'i gwblhau 15/07/24</p>
22.	Gwelsom fod cydymffurfiaet	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod	Monitro'r Ddeddf	Mae Rheolwr y Ward yn cydgyssylltu â Hyfforddwr y	Rheolwr y Ward	Diwedd mis Medi 2024

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
h â hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl ymhlith aelodau o'r staff yn isel ar 38 y cant.	o'r staff yn cwblhau eu hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a rhoi diweddariad i AGIC ar y ffigur diweddaraf ar gyfer cydymffurfiaeth.	Iechyd Meddwl	Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn trefnu diweddariadau pwrpasol i hyfforddiant ar gyfer staff Tŷ Lafant. D.S. Gofynnwyd am ddyddiadau ar ôl cyfnod y gwyliau er mwyn sicrhau bod mwy o staff yn mynychu'r sesiynau hyfforddi.		
23. Nid oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn y cynlluniau gofal a thriniaeth.	Rhaid i'r bwrdd Iechyd sicrhau bod dewis iaith pob claf yn cael ei nodi a'i gofnodi er mwyn i anghenion ieithyddol perthnasol allu cael eu diwallu.	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal	Mae dewis iaith wedi'i ddiweddaru yng nghofnodion yr unigolyn hwn. Caiff poster briffio 'Top Tip Tuesday' ei ddsbarthu yn yr Is- adran er mwyn atgoffa staff o bwysigrwydd cofnodi dewisiadau iaith a chyfathrebu cleifion.	Rheolwr y Ward Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Wedi'i gwblhau 15/07/24 Diwedd mis Gorffennaf 2024
24. Gwelsom nad oedd rhai camau gweithredu a oedd wedi'u nodi fel camau gweithredu a gwblhawyd yn	Rhaid i'r bwrdd Iechyd sicrhau y caiff camau gweithredu o'r cynllun gwella eu hymgorffori yn y prosesau busnes ar gyfer y gwasanaeth a'u monitro er mwyn olrhain cynnydd.	Llywodraethu ac arweinyddiaeth	Bydd y Grŵp Bwyta'n Iach yn dechrau ar 31 Awst 2024.	Rheolwr y ward	Awst 2024
			Mae proffiliau byr wedi'u cwblhau ar gyfer pob unigolyn ar y ward.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
			Mae presenoldeb proffil byr yn y nodiadau clinigol wedi'i	Rheolwr y Ward/ Uwch-nyrs	O 19/07/24

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
y cynllun gwella, wedi cael eu diweddarau na'u rhoi ar waith.			ychwanegu at yr archwiliad clinigol wythnosol o'r ward, er mwyn sicrhau gwaith monitro a goruchwyllo parhaus, gyda materion yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol at Reolwr y Ward a/neu'r Uwch- nyrs yn ôl y gofyn.		
25. Ni chawsom sicrwydd bod y bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn arddangos y wybodaeth ddiweddaraf.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am gamau a gymerir mewn perthynas ag unrhyw faterion cyfredol a godir.	Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu	Ychwanegir materion yn y cyfarfod 'Cyd-gymorth' wythnosol. Mae Rheolwr y Ward bellach yn archwilio hyn bob wythnos.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
26. Nid oedd rhai o bolisiau'r bwrdd iechyd wedi cael eu diweddarau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau nad ydynt yn gyfredol mwyach fel mater o flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u bod	Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol	Mae'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau wrthi'n cael ei adolygu.	Pennaeth Fferylliaeth, Gwasanaethau Gweithredol	Hydref 2024
			Mae'r Polisi Ymyriadau Corfforol Cyfyngol Drafft wedi'i gwblhau. Caiff ymgynghoriad ei drefnu fel rhan o'r broses gymeradwyo.	Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Tân	Awst 2024

Risg/canfyddiad/ mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
	yn rhoi arweiniad clir i'r staff.		Mae'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrthi'n cael ei adolygu.	Arbenigwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Tachwedd 2024	
			Noder: y polisi diogelu a ddefnyddir yn BIPAB yw 'Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan' sy'n gyfredol.	Dd/G	Dd/G	
27.	Nid oedd rhai o bolisiau'r bwrdd iechyd wedi cael eu diweddarau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn â phryd y caiff y polisiau a nodir yn yr adroddiad hwn, ac yn ein hadroddiad arolygu blaenorol, eu cymeradwyo.	Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol	Bydd Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn darparu diweddariadau yn unol â'r cais pan fydd y polisiau wedi'u cwblhau.	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	Hydref 2024

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Nadine Gould

Teitl swydd: Nyrs Arweiniol Is-adrannol Interim, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad:

17 Gorffennaf 2024